

Sul y Cofio

Darllen: Salm 112:6

Beth wnewch chi o'r adnod hon? Ydych chi'n meddwl y bydd y cyfiawn yn cael eu cofio? Trowch at y papurau dyddiol a'r papurau Sul i brofi hynny. Ar wahân i ambell nodyn angladdol sy'n cymryd ychydig fodfeddi, nid oes nemor ddim sôn amdany'n nhw. Os yw gŵr neu wraig mewn swydd gyhoeddus yn ymweld â ward ysbyty neu gartref gofal yn gyson, go brin y bydd hynny'n benawdau ar y newyddion; ond os bydd wedi ei ddal mewn rhyw drythyllwch bydd y camerâu'n fflachio o'i gwmpas ac yn ei ddilyn i bob twll a chornel. Y gweithredoedd drwg sy'n taro'r penawdau, a'r dynion drwg sydd fel arfer yn aros yn y cof. Oes yna wirionedd yng ngeiriau'r Salmydd, ynteu breuddwyd gwrach yw'r cyfan?

Beth am y pennaeth ysgol hwnnw, ar ddiwrnod gwobrwyo yn yr ysgol, a ddechreuodd gystwyo'r rhieni oedd yn gadael i'w plant wneud y rownd bapur cyn mynd i'r ysgol neu weithio mewn caffi lleol ar ôl ysgol? Yn ei farn ef, roedd hyn yn gwneud drwg i'r plant – roedd llawer ohonyn nhw'n cyrraedd yr ysgol wedi hen flino ac yn gweithio wedyn am oriau hir gyda'r nos. Bu distawrwydd llethol. Yna aeth ymlaen i ddweud fod canlyniadau un o'r bechgyn wedi siomi'r athrawon i gyd. Nid am ei fod yn fachgen prin ei ddoniau a'i allu, ond am ei fod wedi gofalu am ei rieni oedd yn fethedig. Y funud honno, dechreuodd y rhieni a'r plant guro dwylo, a chanmolwyd gwaith da'r bachgen.

Fe godwyd sawl cofadail am fod yr argyhoeddiad hwn 'o gofio am y cyfiawn' yn rhan o'n gwriad. Dyna pam fod bedd y Milwr Dienw yn Abaty Westminster. Caplan yn y fyddin, y Parchedig David Railton feddyliond am hyn i ddechrau, a lledaenodd y syniad i Fynwent Genedlaethol America yn Arlington ac i'r Arc de Triomphe ym Mharis ac i'r Chiesa di Santa Maria degli Angeli yn Rhufain. Maen nhw'n tystio i'r awydd i weld cyfiawnder, er ei fod yn gyfiawnder anhysbys, yn cael ei gofio.

Ond mae'n bur debyg y daw cyfnod pan na fydd rhyfeloedd fel y ddau Ryfel Byd yn cael eu coffau. Beth wedyn? Gwyddom yn iawn fod rhyfeloedd a gweithredoedd drwg yn creu cryn ddryswch i'n ffydd. Gofynnwn sut y gall drygioni fod yn gydnaws â Duw sy'n gariad? Neu, wrth geisio egluro pam fod drygioni yn y byd, bydd rhai'n dweud naill ai na all Duw ei ddileu neu nad yw'n dymuno ei ddileu. A thueddwn i resymu fel hyn: os na fedr ei ddileu, nid yw'n hollalluog; ac os nad yw'n barod i wneud hynny, ni fedr fod yn Dduw cariad.

Bywyd Iesu, ei farwolaeth ar Galfaria, a'i atgyfodi gan Dduw ar y trydydd dydd yw craidd yr Efengyl. Nid marwolaeth oedd y diwedd. Ac felly, yng ngoleuni bywyd Iesu, nid yw drygioni yn dileu Duw, ond bydd Duw yn y diwedd yn dileu drygioni. Mae'r dystiolaeth yn amlwg ym mywyd Iesu.

Myfyrdod pellach:

Pa mor barod ydyn ni i anghofio'r rhai cyfiawn?

Ydych chi'n credu fod daioni yn 'llwyddo' yn y pen draw?